



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 6 Mehefin 2017 am 6.00yh yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 6 June 2017 at 6.00pm at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Richard Jones (*yn y gadair/in the chair*), John Adams-Lewis, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Debra Griffiths, Wyn Jones, Siân Maehrlein, Catrin Miles, Yvonne O'Neill, Trystan Phillips, Shan Williams

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol. The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. Richard Jones, bawb i'w gyfarfod cyntaf yn y swydd. **Llongyfarchodd y Cyng.** Catrin Miles yn dilyn ei phenodiad fel aelod â chyfrifoldeb am addysg o Cabinet Cyngor Sir Ceredigion. **Dymunodd hefyd wellhad llwyr a buan i Mr Geraint Davies, tad y Cyng.** Clive Davies, sydd yn disgwyl triniaeth meddygol yn yr ysbyty.

The Mayor, Cllr Richard Jones, welcomed everyone to his first meeting as chair of Cardigan Town Council. He congratulated Cllr Catrin Miles on being nominated as the member with responsibility for education on the Ceredigion County Council Cabinet. The council's best wishes were conveyed to Mr Geraint Davies, the father of the past Mayor, Cllr Clive Davies, who is presently receiving hospital treatment

2. Ymddiheuriadau / Apologies: Y Cyng. / Cllr Clive Davies (*dyletswyddau teuluol/family commitments*)

3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pherionol gan Gynghorwyr.
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyng. / Cllr John Adams-Lewis	Yr holl faterion cynllunio / All planning matters.
---------------------------------	--

4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfodydd y Cyngor 2 a 16 Mai.
Confirmation of Minutes of 2 and 16 May Council Meetings.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion 2 Mai yn gywir.

Cllr Graham Evans proposed that the 2 May minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

Cynigiwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer ac eiliwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein bod cofnodion 16 Mai yn gywir.

Cllr Marilyn Farmer proposed that the 16 May minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Siân Maehrlein.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 1240, eitem 11 (Gerddi Victoria): Cyfarfu'r Cyng. Richard Jones, y clerc a'r Bachan Deche gyda Mr Jon Hadlow ar 18 Mai. Cadarnhaodd Mr Hadlow mai'r cyngor sir fydd â gofal am dorri'r borfa a thrwsio'r llwyni yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol; bydd y cyngor sir hefyd yn tywarchu tri phâm blodau fel a awgrymwyd gan y Bachan Deche. Ni fydd costau am yr holl waith yma yn syrthio ar gyngor y dref. Bydd y Bachan Deche wedyn yn gofalu am weddill y pampau blodau.

Tud. 1243, eitem 6 (Carnifal Aberteifi): Mae Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed wedi cytuno caniatáu i Bwyllgor Carnifal Aberteifi ddefnyddio'r cae ar 5 Awst. Yn yr un modd, derbyniwyd caniatâd hefyd gan Glwb Pêl-droed Aberteifi.

Page 1240, item 11 (*Victoria Gardens*): Cllr Richard Jones, the clerk and the Handyperson held a meeting with Mr Jon Hadlow on 18 May. Mr Hadlow confirmed that the county council would maintain responsibility for the grass-cutting and hedge maintenance of the gardens and would

also turf the three flower beds as recommended by the Handyperson with no cost to the town council. The Handyperson would thereafter plant flowers and perennials in the remaining beds. Page 1244, item 6 (*Cardigan Carnival*): The Advisory Committee of the King George 5th Playing Field has agreed to allow the carnival to be held on the field on 5 August. Cardigan Football Club has no objection to this event.

6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Cyn-Faer i'r holl aelodau yn y cyfarfod.

The Passt Mayor's diary was distributed to all members at the meeting.

7. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A170377	36 High Street	Adaption of existing shop front to separate retail shop and residential accommodation.	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A170387	7 Parc Teifi	Change of use from B1 business to D1 place of worship	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A170400	12 Ridgeway	Retention of use as dwelling	<i>Mae'r cyngor yn cefnogi'r cais.</i> The council supports the application.
A170428	3 Heathfield, Pendre	Display of 5 x fascia signs	<i>Nid oes gan y cyngor wrthwynebiad.</i> The council has no objection.

Aildrafodwyd cais A170333 (5 Pendre): Deëllir nad oedd hybysiad o'r newidiadau wedi ei arddangos yn y cyffiniau. Dymuna'r cyngor ychwanegu'r pwyntiau canlynol: Bod estyniad cefn unllawr newydd yr adeilad yn amharu ar hawl preifatrwydd a golau naturiol i'r cymdogion gan y gorchuddir y ffenestr sydd yno gan yr estyniad. Mae mynediad er mwyn cynnal a chadw'r adeilad cyfagos hefyd tan fygythiad.

Application A170333 (5 Pendre) was reappraised by the council: It is understood that notices pertaining to the development were not posted. The council wish to add the following observations: That the new single storey rear extension concedes the privacy and light source to the adjacent premises' window which presently has no obstruction. The ease of maintenance of the neighbouring building will also be seriously compromised.

8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
26/5/17	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor/</i> Rent of Council Office (<i>Mai / May</i>). <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room</i> (2 & 16 Mai / May) <i>Band Lydan (Mehefin) / Broadband (June)</i>	A9 A9 A20	D/D 4404 4404	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
31/5/17	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Mai / May)</i>	A3	4405	£756.36 (0.00)
26/5/17	Llinos Jones: <i>Cyfieithu ar y pryd /</i> Simultaneous translation (16/5/17 & 23/5/17)	A18	4406	£122.40 (0.00)
26/5/17	Menter Aberteifi: <i>Llogi'r Neuadd a'r Ystafell, ayyb /</i> Hire of Great Hall (no charge), Chamber, PA system, stage and lectern	A4	4407	£62.50 (0.00)
16/5/17	Newsquest: <i>Hysbyseb Sefydlu'r Maer /</i> Advert for Mayor's Installation Ceremony	A4	4408	£100.80 (16.80)
30/5/17	Mr Ken Griffiths: <i>Archwilydd Mewnol /</i> Internal Auditor for 2016-17 council accounts	A13	4409	£300.00 (0.00)
31/5/17	Mr John Harman: <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr /</i> Mace bearer's fee	A6	4410	£140.00 (0.00)
31/5/17	Mr Richard Harman: <i>Gwasanaeth y Brysgyllwr /</i> Mace bearer's fee	A6	4411	£140.00 (0.00)
31/5/17	<i>Y Cyng.</i> / Cllr Richard Jones: <i>Lwfans y Maer /</i> Mayor's allowance (50%), 2017-18.	A1	4412	£1,600 (0.00)

31/5/17	Y Cyng. / Cllr Richard Jones: Rhoddion y Maer / Mayor's Donations, 2017-18.	D1	4413	£620.00 (0.00)
31/5/17	Cyngor Sir Ceredigion County Council: Cyfraniad arian cyfatebol ar gyfer pecyn Ardal Aberteifi "Active Travel LTF" 2017-18. Match-funding contribution for Cardigan Active Travel Area LTF package 2017-18	B8	4414	£5,000.00 (0.00)
1/2/17	Penrallt Garden Centre Ltd.: Coeden Nadolig 2016. 20ft Christmas tree for Guildhall Square	B1	4415	£250.00 (41.67)
31/5/17	Cardigan Branch Royal British Legion: Plethdorch/Wreath, Anzac Day 2017	D3	4416	£25.00 (0.00)
31/5/17	Bachan Deche / Handyperson: (Mai / May)	A19	4417	£250.80 (41.80)
31/5/17	Florist on the Farm: Blodau i Seremoni Sefydlu'r Maer. Flowers for the Mayor's Installation Ceremony.	A4	4418	£43.00 (0.00)

Cynigiodd y Cyng. Yvonne O'Neill bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Catrin Miles.

Cllr Yvonne O'Neill proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Catrin Miles.

Derbyniadau/Receipts:

10/4/17	Banc Lloyds Bank (Llog/Interest)	£1.46
16/5/17	Cronfa'r Maer/Mayor's Fund: Cilla (Indoor Market)	£150.00

9. Cyfethol aelod i ward Mwldan. Co-option of member to the Mwldan ward.

Derbyniwyd yn ysgrifenedig un enw'n unig i'w ystyried gan y cyngor i'w gyfethol fel aelod o Gyngor Tref Aberteifi. Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod Mr Steffan Morgan, 10 Brynnonen, Aberteifi, yn cael ei gyfethol fel aelod o Ward Mwldan o Gyngor Tref Aberteifi.

Cytunwyd bod y clerc yn anfon yr wybodaeth o benderfyniad y cyngor ymlaen at Mr Morgan ac yn ei wahodd i gyfarfod llawn y cyngor ar 4 Gorffennaf.

One written application only was received by the council for consideration to be co-opted as a member of the Mwldan ward of Cardigan Town Council. Cllr John Adams-Lewis proposed and Cllr Wyn Jones seconded the proposal that Mr Steffan Morgan, 10 Brynnonen, Cardigan, be co-opted as a member of Mwldan Ward on Cardigan Town Council. The clerk was requested to inform Mr Morgan of the council's decision and to invite him to the next full council meeting on 4 July.

10. Mabwysiadu'r Ddogfen "Polisi'r Cyfryngau Cymdeithasol".

Adoption of the "Social Media Policy".

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod y ddogfen uchod, mewn egwyddor, yn cael ei mabwysiadu gan y cyngor. Cytunwyd hefyd y bydd hawl gan y cyngor i'w diwygio o bryd i'w gilydd ac i'w gosod ar agenda'r cyngor ym mis Mehefin yn flynyddol am ailasesiad.

Ychwanegodd y clerc bod y ddogfen "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr" a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Awst 2013 ar gael ganddo yn ei swyddfa at ddefnydd aelodau.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Graham Evans that the council, in principle, adopts the above document. It was also agreed that appropriate amendments be made to the document if circumstances dictate and that it be placed on the council's agenda annually at the June meeting for reassessment and possible revision.

The clerk added that the document "Social Media: A Guide for Councillors" published by the Welsh Local Government Association in August 2013, is held in his office and is available to members.

11. Adroddiadau'r Cynghorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Diolchodd y Cyng. Miles am y cyfarchiad a gafodd gan y Maer; roedd wedi mynychu cyfarfod cyntaf y Cabinet heddiw (6/6/17).
- (ii) Mae'r llwybr o bentref Llandudoch i Aberteifi yn anghyson ac yn beryg i gerddwyr a defnyddwyr eraill. Mae angen cydweithio rhwng y ddau gyngor tref/cymuned i roi cynllun at ei gilydd i wella'r sefyllfa. Mae problem ychwanegol o gyflymder ceir ar hyd y ffordd.
- (iii) Yn yr un modd, mae angen cysylltu â Llywodraeth Cymru am beryg cyflymder y drafnidiaeth ar fynedfa Heol Dinbych y Pysgod i dref Aberteifi. Cyfrifoldeb Ken Skates, AC, Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros yr Economi a'r Seilwaith, yw'r briffordd yma.

(b) Y Cyng. Elaine Evans:

- (i) Fel aelod newydd o'r cyngor sir, mae'r Cyng. Evans wedi ei phenodi yn aelod o Bwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach ac yn cynrychioli'r cyngor sir ar fwrdd Theatr Mwldan. Mae'n edrych ymlaen yn eiddgar i'w chyfrifoldebau dinesig newydd.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) Cllr Miles thanked the Mayor for his greetings on her appointment to the Cabinet of Ceredigion County Council with the education portfolio. She attended her first meeting today (6/6/17).
- (ii) The pathway from St Dogmaels to Cardigan is uneven and a danger to pedestrians and other road users. It is hoped that the two bordering town/community councils can collaborate to improve the present hazardous situation. Additional problems arise due to the speed limit not being observed by motorists.
- (iii) Likewise, the Tenby Road highway into Cardigan is also in need of monitoring due to the alarming speed of traffic. Responsibility for this section remains with Ken Skates AM, the Welsh Government Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure.

(b) Cllr Elaine Evans:

- (i) As a newly-elected member of the county council, Cllr Evans has been appointed a member of the Licensing Committee and Thriving Communities Overview & Scrutiny Committee and will represent the authority on the Theatr Mwldan board. She is looking forward eagerly to her new civic responsibilities.

12. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
44	CSC / CCC (Eifion Evans): <i>Etholiadau Lleol 4/5/15: Hysbysiad o Gyfethol (Ward Mwldan): Ceisiadau i'w derbyn yn ysgrifenedig erbyn 5 Mehefin.</i> Notice of Co-option (Mwldan Ward): Applications to be received in writing by 5 June.	<i>Mae'r posteri wedi eu harddangos mewn mannau cyhoeddus yn y dref. Gweler eitem 9.</i> Posters have been displayed in various public locations. See item 9. <i>Blaenyrrwyd yr aelodau â'r wybodaeth ar 24 Mai.</i> Email of information forwarded to members on 24 May.
45	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.</i> Rights of Way Improvement Plan review. <i>Sylwadau ac awgrymiadau i'w derbyn erbyn 8/8/17.</i> Comments and suggestions to be received by 8/8/17.	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 1/6/17. <i>Am ragor o wybodaeth, bydd swyddogion ar gael ar eu stondin yn Sioe Aberteifi ar 2 Awst.</i> Officers will be attending Cardigan Show on 2 August and will display further details.
46	CSC / CCC (Dana Jones): <i>Derbyniwyd y dogfennau canlynol:</i> <i>(a) C.L.L.C. Cyfryngau Cymdeithasol – Canllaw i Gynghorwyr.</i> <i>(b) Templad o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol o Un Llais Cymru.</i> The following documents were received: <i>(a) W.L.G.A. Social Media – a Guide for Councillors.</i> <i>(b) Template for a Social Media Policy from One Voice Wales.</i>	<i>Dosbarthwyd cynllun drafft o Bolisi Cyfryngau Cymdeithasol (ULIC) i'r aelodau yng nghyfarfod 16 Mai.</i> A Draft Copy of the Social Media Policy (OVW) was distributed to members at the 16 May meeting.

47	CSC / CCC (Cathryn Morgan): <i>Eglurhad ynglŷn â cheisiadau am gymorth ariannol tan adran 137 Llywodraeth Leol 1972 sydd yn ymwneud â gofynion Pwyllgor Ffrindiau'r Maes Sgrialu.</i> Explanation regarding the directives required for funding under section 137 of the Local Government Act 1972 pertaining to the expectations of the Friends of the Skateboard Park.	<i>Mae copi o'r ffurflen gais wedi ei hanfon at yr aelodau er gwybodaeth yn unig.</i> A copy of the application form has been forwarded to all councillors for information only.
48	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Adran Cau'r Ffydd – Road Closure section. Cefn Neuadd y Dref, 22/9/14-22/11/17 oherwydd cyflwr wal adeilad y Neuadd.</i> Access road at the rear of the Guildhall from 22/9/14-22/11/17 due to partial wall movement of the Guildhall building. (Amendment to date)	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 24/5/17.
49	CSC / CCC (Lynsey Thomas): <i>Gweithdy i hybu'r Gymraeg yn lleol.</i> Workshop to promote the Welsh language locally, Y Man a'r Lle, Campws Coleg Ceredigion, 16/5/17, 6.30pm	<i>Eglurwyd i'r trefnyddion gan y clerc bod cyfarfod cyngor y dref yn cymryd lle ar yr un adeg.</i> The clerk advised the organisers that the town council meeting was scheduled to take place at the same time. Cllrs John Adams-Lewis, Catrin Miles and Graham Evans attended at the conclusion of the council meeting.
50	CSC / CCC (Gari Jones): <i>Ymgynghoriad ynghylch y bwriad i gyflwyno mesurau gostegu traffig yn Aberteifi.</i> Consultation on proposed physical traffic calming in Cardigan. <i>Ymateb/response by 22/6/17.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/6/17. <i>Cynigiwyd gan y Cyng. Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Shan Williams bod y cyngor yn cymeradwyo'r awgrymiadau.</i> Cllr Adams-Lewis proposed that the council approves the recommendations offered; the proposal was seconded by Cllr Shan Williams.
51	Coleg Ceredigion: <i>Gwahoddiad i'r Seremoni Gwobrwyo, 13/6/17 am 6.30yh.</i> Invitation to attend the Prize Giving Evening on 13/6/17 at 6.30pm at Y Man a'r Lle.	<i>Gwahoddwyd yr holl aelodau a disgwylir iddynt ymateb yn bersonol.</i> All members have received an invitation and are expected to respond personally.
52	Moose International: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Noson Caws a Gwin, 20/5/17 am 7.30yh.</i> An invitation to the Mayor and Mayoress to attend a Cheese and Wine Evening on 20/5/17 at 7.30 in aid of Parkinson's Society.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor (Cllr Clive Davies).
53	Clwb Rygbi Aberteifi: <i>Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres i'r Cinio Blynyddol.</i> Cardigan RFC: Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Annual Dinner/Dance at the Cliff Hotel on 10/6/17, 6.30 for 7.00pm.	<i>Mae'r gwahoddiad wedi ei drosglwyddo i'r Maer.</i> The invitation has been forwarded to the Mayor (Cllr Richard Jones).
54	Y Cyng. / Cllr Catrin Miles: <i>Copi o ebost yn cadarnhau bod y camau cyfreithiol ynglŷn â chofrestru Cae Chwarae Pentop gyda'r Gofrestrfa Tir wedi eu derbyn oddi wrth Welch & Co.</i> Email confirmation that the lease of the Pentop Play Area has been registered with HM Land Registry. A copy of the Completion of Registration letter, Land Register and plan have been received from Welch & Co.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
55	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymholiad gan swyddog yn gofyn am wybodaeth ynglŷn â pherchenogaeth ardal y Netpwl.</i> Natural Resources Wales: Enquiry regarding the ownership of a section of land at Netpool where work on the Afon Mwldan outfall is required due to health and safety issues.	<i>Mae'r clerc wedi egluro i Mr Peter Morgan mai'r cyngor sir sydd â chyfrifoldeb am y darn tir.</i> The clerk has informed Mr Peter Morgan (Technical Support NRW) that the county council is responsible for the land.
56	Coleg Ceredigion (Jacqui Weatherburn, Pennaeth/Principal): <i>Gwybodaeth am newidiadau ynglŷn â gweinyddu'r Coleg. Bydd pennaeth presennol Coleg Sir Gâr, Barry Liles, yn cymryd cyfrifoldeb o arwain y ddau goleg yng Ngheredigion ar ddechrau'r flwyddyn academaidd 2017-18. Bydd Mrs Weatherburn yn rhoi'r gorau i'w swydd dros y Sulgwyn.</i>	<i>Cytunwyd anfon llythyr o ddiolch i Mrs Weatherburn am ei chyfraniad i lwyddiant Coleg Ceredigion yn nhref Aberteifi.</i> It was agreed to forward a letter of gratitude to Mrs Weatherburn for her contribution to the success of Coleg Ceredigion in Cardigan.

	Information regarding changes in the administration of Coleg Ceredigion. The present principal of Coleg Sir Gâr, Barry Liles, will take leadership responsibility for both Ceredigion colleges at the commencement of the 2017-18 academic year. Mrs Weatherburn will relinquish her role at Whitsun and will continue in a strategic role within a wider portfolio across the UWTSO group.	
57	<i>Cyngor Tref Castell Newydd Emlyn: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Seremoni Sefydlu'r Maer, 17/5/17, 7.30yh yn Ysgol Gyfun Emlyn.</i> Newcastle Emlyn Town Council: An invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation Ceremony on 17/5/17 at 7.30pm.	<i>Oherwydd absenoldeb anorfod y Maer, y Cyng. Clive Davies, mynychodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Richard Jones y Seremoni.</i> Due to the unavoidable absence of the Mayor, Cllr Clive Davies, the Deputy Mayor, Cllr Richard Jones attended the Ceremony.
58	<i>Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Seremoni Sefydlu'r Maer, 26/5/17, 6.30yh yn yr Hen Lyfrgell.</i> Lampeter Town Council: An invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation Ceremony on 23/5/17 at 6.30pm in the Old Library.	<i>Oherwydd absenoldeb anorfod y Maer, y Cyng. Richard Jones, mynychodd y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis y Seremoni.</i> Due to the unavoidable absence of the Mayor, Cllr Richard Jones, the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis attended the Ceremony.
59	<i>Cyngor Tref Aberystwyth: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Seremoni Sefydlu'r Maer, 2/6/17, 6.30yh yn yr Hen Goleg.</i> Aberystwyth Town Council: An invitation to the Mayor and Mayoress to attend the Mayoral Installation Ceremony on 2/6/17 at 6.30pm in the Old College.	<i>Oherwydd absenoldeb anorfod y Maer, y Cyng. Richard Jones, mynychodd y Dirprwy Faer, y Cyng. John Adams-Lewis y Seremoni.</i> Due to the unavoidable absence of the Mayor, Cllr Richard Jones, the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis attended the Ceremony.
60	<i>RoSPA: Cadarnhad y bydd y cwmni yn archwilio'r manau chwarae yn ystod mis Mehefin.</i> Confirmation that the company will inspect the play areas during June.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
61	<i>Thomas Fattorini Ltd.: E-bost yn achwyn nis dderbynnir sic y cyngor a ysgrifennwyd yn y Gymraeg ganddynt.</i> Email complaining that the town council cheque written in Welsh would not be accepted by their local bank.	<i>Yn dilyn ymateb llym gan y clerc, derbyniwyd y sic a'i talwyd ar 10/5/17.</i> Following a stern response from the clerk, the cheque (No. 4400) was duly paid on 10/5/17.
62	<i>Mr Richard Watson, Llys yr Eog, Llandudoch: Gwybodaeth am drefniadau Dydd Anzac i'r dyfodol.</i> Information regarding future Anzac Day arrangements. <u>Reminder:</u> Armed Forces Day, Saturday, 24 Mehefin/June, 2 for 2.30pm, Catholic Church Hall.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
63	<i>Pwyllgor Carnifal Aberteifi: Cais i ddefnyddio Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed i gynnal carnifal ar 5/8/17.</i> Cardigan Carnival Committee (Mr Steffan Morgan): A request to use King George 5 th Playing Field to hold a carnival on 5/8/17.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr ar ran Pwyllgor y Carnifal i ofyn caniatâd y Pwyllgor Ymgynghorol i ddefnyddio'r Cae Chwarae.</i> The clerk has forwarded a letter on behalf of the Carnival Committee seeking the permission of the Advisory Committee to hold the carnival on King George 5 th Playing Field.
64	<i>Y Parchg/Rev. John Bennett: Gwybodaeth am gyfarfod Croeso Teifi i groesawu teulu o ffoaduriaid o Syria i Aberteifi.</i> <i>Croeso Teifi invites councillors to a meeting towards settling a Syrian refugee family in Cardigan, 24/6/17, 10.00-12.00 noon in St Mary's Church Hall.</i>	<i>Mae copi wedi ei flaenyrru at aelodau.</i> Copy forwarded to members 6/6/17.
65	<i>Sioe Dydd Sadwrn Barlys Aberteifi: Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> Cardigan Barley Saturday Show: A letter of gratitude for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
66	<i>Cadwgan (Castell Aberteifi / Cardigan Castle): Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> A letter of gratitude for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
67	<i>Mount Zion Drop-in Centre: Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> A letter of gratitude for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
68	<i>Gŵyl Cerdd Dant Llandysul a'r Fro 2017: Llythyr o ddiolch am grant y cyngor.</i> A letter of gratitude for the council grant.	<i>Nodwyd.</i> Noted.

69	Zurich Municipal: Insurance renewal proposal: <i>Mae'r clerc wedi trafod y manylion gyda Mrs Karen Cowen.</i> The clerk has discussed the proposal with Mrs Karen Cowen and agreed on a premium of £2,527.63 (including all applicable taxes) for a period of three years.	<i>Cytunwyd i'r clerc drafod y manylion gyda Mrs Cowen.</i> It was agreed for the clerk to discuss the details with Mrs Cowen.
70	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Mai</i> Handyperson: May report	<i>I'w drafod tan eitem 13.</i> To be discussed under item 13.
71	Mr Steffan Morgan, 10 Brynonnen, Aberteifi: <i>Cais am gael ei ystyried i'w gyfethol fel cynghorydd i ward Mwldan.</i> An application to be considered for co-option to the Mwldan ward of Cardigan Town Council.	<i>Gweler tudalen 1247, eitem 9.</i> See page 1247, item 9.

Bronwen Morgan:	<i>Prif Weithredwr.</i> Chief Executive.
Cathryn Morgan:	<i>Cydlynnydd Teuluoedd yn Gyntaf</i> / Families First Coordinator
Dana Jones:	<i>Swyddog Gwasanaethau Democraidd a Safonau</i> / Democratic Services and Standards Officer
Eifion Evans:	<i>Dirprwy Swyddog Canlyniadau</i> / Deputy Returning Officer
Eifion Jones:	<i>Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefngwlad</i> Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside
Gari Jones:	<i>Peiriannydd Cynorthwyol Strategaeth Trafnidiaeth</i> / Assistant Engineer Transport Strategy
Lynsey Thomas:	<i>Rheolwr Cered</i> / Cered Manager (Menter Iaith Ceredigion)
Marianne De Vries:	<i>Adain Cau Ffyrdd</i> / Road Closures Section

13. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Maes Sgrialu: Cynhaliwyd digwyddiad llwyddiannus gan Ffrindiau'r Maes Sgrialu ddydd Sadwrn, 3 Mehefin o 1.00-6.00yh. Cyflwynwyd gwobrau i'r sgrialwyr gorau a bu'r cystadleuwyr yn brysur yn casglu sbwriel. Roedd y Maer a'r Cyn-Faer yn bresennol yn rhinwedd eu swyddi.

Skateboard Park: A successful community event was held at the park by the Friends of the Skateboard Park on Saturday, 3 June from 1.00-6.00pm. Prizes were awarded to the best skaters and competitors were busy collecting rubbish from within the park perimeter. The Mayor and Past Mayor were present at the event.

Pwll Nofio Aberteifi: Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod gweithgareddau'n mynd yn eu blaen yn y pwll a bod cytundebau newydd yn cael eu paratoi i'r gweithwyr. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus llwyddiannus yn ddiweddar.

Cardigan Swimming Pool: Cllr Catrin Miles stated that activities were continuously held at the pool and that new contracts were being prepared for staff members. A successful public meeting was recently held.

PACT: Cynhelir cyfarfod PACT at 7 Mehefin yng Ngorsaf yr Heddlu am 7.00yh.

PACT: The next PACT meeting will be held at the Police Station on 7 June at 7.00pm.

(a) Enwebu Aelodau'r Is-bwyllgorau a Chyrff Allanol am 2017-18.

Nomination of Sub-committee Members and External Bodies, 2017-18.

Ychwanegu'r canlynol: Goleuadau Nadolig (Is-bwyllgor); Ffrindiau'r Maes Sgrialu, Cymdeithas Aberteifi Society, Carnifal Aberteifi 2017, Croeso Teifi (croesawu teulu of ffoaduriaid o Syria i Aberteifi) (Mudiadau allanol).

The following to be added: Christmas Lights (*sub-committee*); Friends of the Skateboard Park, Cymdeithas Aberteifi Society, Cardigan Carnival 2017, Croeso Teifi (project towards settling a family of refugees from Syria in Cardigan) (*External bodies*).

Trafodwyd y rhestr lawn o is-bwyllgorau a chyrff allanol a daethpwyd i gytundeb ar yr aelodau a'r cynrychiolwyr i wasanaethu arnynt. Caiff y rhestr ddiwygiedig ei pharatoi a'i dosbarthu i'r holl gynghorwyr gan y clerc cyn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

The list of sub-committees and external bodies was fully discussed and it was agreed that the stated members and representatives would serve on the various committees. The revised list will be prepared and distributed by the clerk before the next full council meeting.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Lleoli anrhegion a dderbyniwyd gan Mr Melfydd George pan yn Faer y Dref.**
To place gifts received by Mr Melfydd George when Mayor of Cardigan.
Cytunwyd lleoli'r anrhegion fel y dymunwyd gan Mr George.
It was agreed to locate the gifts as requested by Mr George.
- (b) **Copiâu o gofnodion, agenda a dogfenni'r cyngor i'w dosbarthu i gynghorwyr: Sylwadau ac awgrymiadau am eu derbyn yn ddigidol neu fel copi caled.**
Council minutes, agendas and other documents to be distributed to members:
Observations and comments as to preference: digital or hard copies.
Dymunodd y Cynghorwyr Richard Jones a Marilyn Farmer dderbyn copiâu caled o ddogfenni'r cyngor.
Councillors Richard Jones and Marilyn Farmer requested hard copies of council documents.
- (c) **Murlun Ystafell Radley: Gofal a chofrestru'r murlun fel ased y dref.**
Ystafell Radley Mural: The care and registering of the mural as a town asset.
Cytunwyd bod y clerc yn cysylltu â Mr Glan Morgan gan ofyn iddo archwilio'r murlun. Bydd y Cyng. Graham Evans yn ymholi am berchenogaeth y campwaith gyda Mr Martin Radley.
It was agreed that the clerk contacts Mr Glan Morgan to inspect and advise the council on the correct procedure to restore and preserve the mural. Cllr Graham Evans volunteered to speak to Mr Martin Radley regarding the ownership of the artwork.
- (d) **Bore Coffi y Lleng Brydeinig, Neuadd y Dref, 10/6/17. Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres.**
Coffee Morning: Royal British Legion, Cardigan Branch. An invitation is extended to the Mayor and Mayoress to attend, 10/6/17, Ystafell Radley.
- (e) **Dydd y Lluoedd Arfog: Gwasanaeth yn Neuadd Eglwys Gatholig Aberteifi, ddydd Sadwrn, 24 Mehefin, 2.00-2.30yp. Mae yna wahoddiad i'r holl gynghorwyr fod yn bresennol.**
Armed Forces Day: Service at the Catholic Church Hall on Saturday, 24 June, 2.00-2.30pm. All councillors are invited.
- (f) **Partneriaeth Canol Tref Aberteifi: Mae'r bartneriaeth yn bwriadu gwneud cais i brynu byrddau hysbysu newydd ac arwyddion bys drwy'r dref. Mae angen parato'r cais ar ran Cyngor Tref Aberteifi erbyn 16 Mehefin. Amcangyfrifir y gost tua £25,000; mae arian ar gael yn y gyllideb i ddosrannu'r gost. Cynigiwyd gan y Cyng. Sian Maehrlein ac eiliwyd gan y Cyng. Marilyn Farmer bod y cyngor yn cymeradwyo'r cais. Mae'r Bartneriaeth yn cyd-dynnu gyda Chymdeithas Aberteifi Society a Chastell Aberteifi.**
Cardigan Town Centre Partnership: The partnership intends making an application for a tourism grant to supply interpretation boards and finger posts throughout the town. The application, to be applied on behalf of Cardigan Town Council, is to be forwarded by 16 June. The estimated cost of the project is £25,000; funds are available in the council budget to match-fund the cost. Cllr Sian Maehrlein proposed that the council approves the application; the proposal was seconded by Cllr Marilyn Farmer. The Partnership is collaborating with Cymdeithas Aberteifi Society and Cardigan Castle.
- (g) **Toiledau Aberteifi: Oherwydd problemau gyda fandaliaid a phersonau yn osgoi talu, mae'r cwmni 4CG yn bwriadu gosod drysau newydd eto yn y cyfleustra sydd yn Lôn y Moch gan osod drws *Maglock* i wrthsefyll y rhai hynny sy'n osgoi talu. Wedi perffeithio'r system yn y man a'r lle yma, bydd y cwmni wedyn yn symud ymlaen i ailagor toiledau Feidrfair.**
Cardigan Public Conveniences: Due to vandalism and petty fraud, 4CG intends placing new doors again to combat the problem at Chancery Lane by placing *Maglock* doors to prevent these on-going problems. Once this problem is eliminated, the company will then proceed to re-open the Feidrfair toilets.
- (h) **Cynhelir cymorthfeydd Plaid Cymru yn Hen Orsaf yr Heddlu, Stryd y Priorddy, ar y Sadwrn olaf o bob mis o 9.30-10.30yb.**
The Plaid Cymru surgeries will be held at the Old Police Station, Priory Street, on the last Saturday of the month from 9.30-10.30am.
- (i) **System sain: Cytunwyd bod y Cynghorwyr Wyn Jones a Clive Davies yn ymholi am brisiau system sain i'w ddefnyddio ar ddigwyddiadau'r cyngor.**
Sound system: It was agreed that Councillors Wyn Jones and Clive Davies procure costs of purchasing a sound system for council events.

Er gwybodaeth / For information:

Aelodaeth y Cabinet o Gyngor Sir Ceredigion:

Y Cyng. Catrin Miles: Gwasanaethau Dysgu, Dechrau'n Deg a'r Tîm o Amgylch y Teulu

Aelodau ar Bwyllgorau Cyngor Sir Ceredigion:

Y Cyng. John Adams-Lewis: Pwyllgor Rheoli Datblygu Pwyllgor Trwyddedu
Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol
Y Cyng. Clive Davies: Pwyllgor Trwyddedu Pwyllgor Gwasanaethau Democraidaidd
Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol
Y Cyng. Elaine Evans: Pwyllgor Trwyddedu Pwyllgor Cymunedau Iachach

Membership of the Ceredigion County Council Cabinet:

CLr Catrin Miles: Learning Services, Flying Start and Team Around the Family

Membership of Ceredigion County Council Committees:

CLr John Adams-Lewis: Development Control Committee Licensing Committee
Corporate Resources Committee
CLr Clive Davies: Licensing Committee Democratic Services Committee
Corporate Resources Committee
CLr Elaine Evans: Licensing Committee
Healthier Communities Committee

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.50yh
There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.50pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date